# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Iau, 25 Ionawr 2018.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Siôn Ifans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Iwan Pughe Jones, Deryck Lewis, S Gareth Owen, William N Owen, Geraint Wigley. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Gwen Lloyd, Aeron Pughe, Gwenfair E Rhys-Davies, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan.

**18.01. Datganiadau o diddordeb.**
Dim.

**18.02. Cofnodion cyfarfod 21 Rhagfyr 2017.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**18.03. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.57.1. Dyfodol nifer blwch ffon yn ardal Cymuned Glantwymyn. Darllenodd y Clerc dau e-bost gan Paul Armour, cwmni BT, ynglyn y prosiect mabwysiadu sawl blwch ffon ddiangen yn yr ardal. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mynd ymlaen a mabwysiadu blwch ffon Commins Coch ac hefyd blwch ffon Cemaes. Cytunwyd hefyd dangos diddordeb yn y blwch ffon yng Nghwmlline a'i ddefnyddio i'r offer defibrillator.
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar y phrosiect pibellau dwr.
17.56.10. Prosiect Pont ar Ddyfi Newydd. Darllenodd y Clerc llythr gan James Healey, Llywodraeth Cymru, yn cynnwys ymateb i'r llythr gwrthwynebol i'r phrosiect ysgrifennwyd ar rhan y Cyngor Cymuned. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod llythr Mr Healey ddim yn ateb nifer o phryderon y Cyngor. Cytunwyd ysgrifennu yn ol i Mr Healey yn cadarnhau fod y Cyngor Cymuned yn parhau i gwrthwynebu y cynlluniau.
17.57.7. Phroblemau gyda sefyllfa audit y Cyngor. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa ac eglurodd ei fod wedi derbyn llythr yn gofyn am rhagor o fanylion. Cytunwyd rhaid cael gwybodaeth cyfoes ar y gwefan. Cynigiodd Cyng Sion Ifans helpu gyda'r tasg yma.
17.64.2. Problemau gyda diffyg halen ar y cefnffyrdd. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa halen gyda'r Cyngor Sir. Cadarnhaodd y Cynghorwyr fod nifer o safleoedd wedi derbyn halen erbyn hyn. Gofynodd Cyng Paul Hughes am halen i Ffordd Cefn Coch yng Nglantwymyn.
17.73.1. Cyflwr llochesi bws yn y Cymuned. Cadarnhaodd Cyng Paul Hughes ei fod wedi edrych ar y lloches bws yng Nglantwymyn ac roedd angen ei glanhau. Y mae hefyd problem gyda coed yn tyfi i fewn i'r lloches o tir y rheilffordd. Ychwanegodd Cyng Deryck Lewis fod angen glanhau lloches Cwmlline. Cytunwyd gohirio unrhyw gwaith nes y bod y llochesi i gyd wedi cael arolwg.

**18.04. Cynllunio.**
04.1. Ymgynghoriad ynglyn a cais cynllunio i newid defnydd tir yn Tynwtra, Cemaes, Machynlleth. Darllenodd y Clerc e-bost gan Mr Iwan Foulkes ar rhan yr ymgeisydd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cais mewn egwyddor.
04.2. P/2018/0060. Cais cynllunio i codi ty a modurdy ar rhif 4, Coed-yr-Onnen, Glantwymyn, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cais.

**18.05. Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
05.1. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa gyda newid y mandate gyda'r banc.
05.2. Cyflwynodd y Clerc infois gan Mr Glenn Webb am £1,400-00 am torri'r gwair ym mynwent Eglwys Darowen a mynwent Eglwys Llanwrin. Cytunwyd talu'r infois cyn gynted yr ydym yn derbyn cadarnhad bod y mantolen wedi newid.
05.3. Cytunwyd gohirio trafodaeth am unrhyw taliadau eraill nes bod y mandate newydd wedi cael ei dderbyn.

**18.06. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**

06.1. Materion Iechyd. Ymddiheurodd Cyng Gareth W Jones ei fod wedi methu mynychu cyfarfod diwethaf y Fforwm Cleifion.

06.2. Neuadd Glantwymyn. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod y pwyllgor yn cwrdd wythnos nesaf.

06.3. Ysgol Glantwymyn. Cadarnhaodd Cyng Aled Griffiths fod y ffenestr wedi cael ei thrwsio ond roedd yna phryderon ynglyn a cost y gwaith. Aeth ymlaen i adrodd fod plant yr ysgol wedi perfformio mewn cyngerdd ardderchog yn y Tabernacl gyda Mr Rhys Meirion ac Mr Aled Davies, Pentremawr.

06.4. Un Llais Cymru. Rhoddodd y Clerc diweddariad ar cyfarfod Pwyllgor Rhanbarthol Un Llais Cymru yn Abermiwl.

**18.07. Gohebiaeth.**

07.1. E-bost gan Mr Steve Fuller, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cau'r ffordd ym Melinbyrhedyn yn ystod Mis Ionawr a Mis Chwefror 2018.

07.2. E-bost gan Dyfodol Cambrian gyda manylion Cyfarfodydd Croeso Cambrian 2018.

07.3. E-bost gan Ms Janette Cooper, Llywodraeth Cymru, gyda manylion ymgynghoriad ar Strategaethau Lleol ar Gyfer Darparu Toiledau.

07.4. E-bost gan Ms Jill Kibble, Ymgyrch Diogeli Cymru Gwledig, yn ymestyn gwahoddiad i tri aelod o'r Cyngor mynychu cyfarfod yn Aberriew ar 23 Chwefror 2018 i lansio cystadleuaeth Gwobr Pentref Sir Drefaldwyn 2018.

07.5. E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynglyn yr Adolygiad o'r Sector Cynghorau Lleol yng Nghymru.

07.6. E-bost gan Mr Paul Egan, Un Llais Cymru, ynglyn a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

07.7. E-bost gan Ms Suzanne Kemp, Cyngor Sir Powys, ynglyn a caeau gerddi ym Mhowys.

07.8. E-bost gan Mr Wyn Richards, Cyngor Sir Powys, gyda manylion "general dispensations" i Cynghorwyr.

07.9. E-bost gan Cyngor Sir Powys gyda newyddion y Cyngor Sir.

07.10. E-bost gan Mr Russell George AC gyda newyddion Mis Ionawr 2018.

**18.08. Unrhyw fater arall.**

08.1. Pwllgor Sir Drefaldwyn. Dymunodd Cyng Aled Griffiths diolch i Chyng Elwyn Vaughan am ei waith galed i sicrhau fod pwyllgorau'r hen siroedd yn mynd i ddiflannu ac arbed arian i'r Cyngor Sir.

08.2. Erthyglau yn y Blewyn Glas. Eglurodd Sion Ifans fod yn bwysig ail cychwyn rhoi crynodeb o fusnes pob cyfarfod y Cyngor Cymuned yn y Blewyn Glas. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn mynd ati i gwneud hyn.

08.3. Problemau gyda ffosydd ar hyd Ffordd Llanwrin. Eglurodd Cyng William Owen fod angen sylw i nifer i'r ffosydd mewn sawl lle ar hyd Ffordd Llanwrin. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.

08.4. Problem gyda'r nant yn gorlifo ym mhentref Llanwrin. Eglurodd Cyng William Owen fod yna phroblem gyda'r nant yn gorlifo yn y pentref yn Llanwrin. Mae'n debyg fod hyn yn ymwneud gyda datblygiad heb caniatad yn y pentref. Mi fydd Cyng Owen yn cwrdd gyda swyddog o'r Adran Cynllunio i edrych ar y sefyllfa.

08.5. Problem gyda gwyneb y ffordd ar y cylchfan yng Nglantwymyn. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod problemau ddifrifol yn datblygu gyda gwyneb y ffordd fawr ar y cylchfan yng Nglantwymyn. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw yr Adran Priffyrdd.

08.6. Pryderon am dyfodol Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, yn dilyn erthygl yn y County Times. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cadw golwg ar y sefyllfa a gofyn am diweddariad gan Cyng Gwenfair Rhys-Davies yn y cyfarfod nesaf.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 22 Chwefror 2018.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 29 Mawrth 2018.**